WG35.5. 233

# MARWNADAU

ER

Coffadwriaeth am y diweddar dra

# BARCH. DEON COTTON,

## BANGOR,

Yr hwn a fu farw Mehefin 4ydd, 1862.

---

BANGOR:
ARGRAFFWYD GAN J. MENDUS JONES.

1863.

X205 318052

# RHAGDRAITH.

---

"Wele Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oes dwyll."—"Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."

Cynygiwyd gwobr o dri gini a thlws arian, gan ychydig gyfeillion, am y Bryddest oreu er Coffadwriaeth am y diweddar Dra Pharch. Deon Cotton, Bangor. Y Parch. M. Williams, M.A. (*Nicander*) yn feirniad. Derbyniwyd un-ar-ugain o Bryddestau ar y testyn teilwng uchod, ac wele dair ohonynt. Y gyntaf gan "Plorator," neu Robyn Wyn, Bangor, i'r hwn y dyfarnwyd y wobr. Yr ail ydyw eiddo "Diaddurn," neu J. Hughes, C.M., Vaynol School; yr hon a farnwyd yn drydedd oreu; ac yn gymaint ag i awdwr yr ail oreu omedd i ni gyhoeddi ei Bryddest, yr ydym yn cyhoeddi eiddo "Deigryn," neu R. D. Roberts, Bangor. Y mae y tair yn amrywio yn eu meddylddrychau, ac wele hwynt at eich gwasanaeth, ac nid gormod yw dyweyd fod y diweddar Ddeon yn llenwi y cymeriadau dysgleiriaf o eiddo y tair. Gan hyny, hyderwn na fydd i neb fod yn ol o feddianu 'r tair Pryddest, ac y bydd i bob ysgolfeistr ymdrechu i'r holl ysgoleigion ag sydd o dan eu gofal, fod yn feddianol ar y llyfryn hwn, ac y byddant ar gôf a chadw yn eu meddyliau pan na bydd y llyfr ar gael.

JOHN JONES,

*District Registry Office,*

*Bangor.*

Credaf mai Heilyn oedd yr ail.

# Marwnad Deon Cotton.

BUDDUGOL YN EISTEDDFOD BANGOR, GORPH. 21, 1863.

MAE'N DEON hybarchus yn awr wedi marw,
  Fe roddwyd ein DEON dan briddell y bedd
Mae'r galon yn gwaedu yn adsain ei enw,
  O'r hawddgar bendefig! urddasol ei wedd
Tyr'd Awen alarus, O tywallt dy ddagrau,
  Ni raid iti wrido am wylo yn awr,
Ni roddwyd dan leni yr oerion briddellau
  Un gerid'n fwy anwyl, un berchid mor fawr.

Os ydoedd yn estron o ran ei waedoliaeth,
  Ein bryniau a garodd yn moreu ei oed;
Ei enaid a hudwyd gan swynion ein talaeth,
  'Rwy'n caru'r llanerchau a sathrodd ei droed;
Hen ddinas Caerlleon ddyrchafa ei chŵynion,
  Mae dagrau y *Cymro* yn gymysg â'r *Sais*
Wrth gofio rhinweddau dysgleirwych y DEON;
  Bu'n gyfaill i ryddid, bu'n elyn i drais.

Mae talu ymweliad âg argel ei wely
  Yn agor cuddfeddau y fynwes yn awr;
W el dyma orweddfan y gŵr y mae Cymru
  Mewn hiraeth o'i golli, ei galar sydd fawr:
Ar ddydd ei gynhebrwng, olwynion masnachaeth
  Gydsafodd yn llonydd, yn deyrnged o barch,
Yn offrwm gwladgarol i'w bur goffadwriaeth
  'Roedd gwreng a boneddig yn dylyn ei arch.

Y newydd o'i farw darawodd ein dinas
  A iasau llesmeiriol o ofid a braw;
Trwm alar a lanwodd y bwthyn a'r palas,
  A'r gweithiwr a safai â'i bwys ar ei raw;
Pob sect ac aethyddiaeth gyd-deimlant ei golli,
  Galaru amdano wna'r ieuanc a'r hen;
Trom ergyd anaele i gymoedd Eryri
  Fu dydd claddedigaeth fythgofus y DEAN.

Bu'n anrheg fendithiol o ddwylaw Rhagluniaeth
  I'n dinas Esgobol, pwy ddywed ei gwerth?
A'i fywyd llafurus fu'n ddirfawr wasanaeth
  I buro ei moesau, i grefydd bu'n nerth;

Bu'n fflangell ar bechod ar hyd ei faith yrfa,
Bu'n gyfaill moesoldeb, pob rhinwedd a bri,
Bu'n darian i rinwedd, bu'n elyn pob traha,
Ei glust oedd agored i'r tlawd dan ei gri.

I'r achos na wyddai fe chwiliai ein harwr,
Oedd Job mewn haelioni, i'n dinas bu'n dad;
Oedd frawd i'r pendefig, oedd gyfaill y gwanwr,
Bu'n fendith annhraethol i gylchoedd ein gwlad:
"*Cymdeithas y Beiblau*" sy'n wylo o'i golli,
Fe gwympodd ei Lywydd, pwy leinw ei le?
Ar ddydd ei gŵyl mwyach, pwy, pwy geir i'n lloni
Mor llawn ei arabedd, mor selog ag e'?

Ein "*Eglwys Gadeiriol*" yn awr amddifadwyd
O'r aelod ffyddlonaf, a'r swyddog o fri,
O'r Deon hybarchaf yn *Mangor* a welwyd,
Pa ryfedd ei gweled yn wylo yn lli'?
Tyr'd Awen alarus, cusana'i droedolion,
Mor ddystaw, llafurus, y llanwai ei swydd!
Rhag ofn ei olygon y ciliai gwŷr trawsion,
Yr annuw ni safai, gan fraw yn ei ŵydd.

O heol i heol bu'n ymlid pechodau,
Oedd halen santeiddiol, yn puro pob lle,
Bu'n angeu a dinystr i lu o hen gampau
Fu'n warthrudd a *staen* ar gymeriad ein tre';
Halogwyr y Sabboth, gloddestwyr, a meddwon,
Geryddai yn llym, adferodd i'w fri
Y dydd a gysegrwyd gan Arglwydd Dduw Seion,
O'i lafur mwynhau y tawelwch gawn ni.

Oedd gyfaill i addysg, pwy, pwy all amgyffred
Fath fendith ardderchog fu ef yn ei ddydd?
A phwy a geir ini all adrodd y golled
I lu o dylodion am dano ef sydd?
Na wrided y gwŷr a fu'n derbyn o'i gedion,
Hyfrydwch ei enaid oedd cwmni y plant;
Gwnaed llu yn foneddwyr drwy haeledd ein Deon,
"Yn gwneuthur daioni" y byddai y sant.

Rhown dro i'r ysgoldy am unwaith i'w wrando
Yn holi ac ateb fel plentyn ei hun;
Pwy gaid yn gymhwysach na'r Deon mwyn yno?
Ymryson i'w ateb y byddai pob un;
Fe wyddai e'r llwybr i feddwl y plentyn,
Astudiodd athroniaeth ieuenctid ein gwlad,
Ac arnynt chwareuai fel cerddor â'r delyn,
Ein Deon gyfrifid yn athraw a thad.

Ysgolion y wlad alarant o'i golli,
  Yn iach iddynt mwyach ei wel'd yn eu mysg;
Yn iach am ymweliad ar ddydd mawr yr holi,
  Yn iach iddynt dderbyn o'i gynghor a'i ddysg;
Yn iach i Eryri am noddwr y tlodion,
  Hoff gyfaill y weddw alarus a'r plant;
Wel, wylwch am dano, fu'n derbyn o'i gedion,
  Yr Eglwys a wyla am golli y sant.

Ei enaid wefreiddiwyd yn adsain cerddoriaeth,
  Mor felus y pynciai ef glodydd yr Iôr,
Ei lais cryf a chwyddai ar donau tônyddiaeth,
  Oedd *organ* ei hunan yn nghanol y côr:
Ar dabyrddau fy nghlyw mae'i lais eto'n aros,
  Mor gryf yn ei henaint, mor dyner a mwyn!
Ei gân ydoedd lawn o hudoliaeth yr eos,
  Yn orllawn o geinion cerddoriaeth a'i swyn.

Ond gwag yw'r areithfa—bu farw'r pregethwr,
Ein Heglwys a gollodd y ffyddlon gynghorwr;
Mor ddiwyd y daliodd hyd ddyddiau penllwydni,
Yn nghanol ei wendid, ei lesgedd, a'i ddellni!
Ei gof oedd yn fywiog, a'i sel oedd yn danbaid,
Ac "achos yr Arglwydd" wresogai ei enaid;
Yn y gwaith y byddai ei fyfyrdod ef beunydd,
Nis gallai yn unman ddim aros yn llonydd.

Mae mainc yr Ynadon yn wag am ei golli,
Symudwyd cynghorwr addfwynaf o honi;
Mae'r dagrau yn gwlychu aelwydydd y tlodion
Am golli eu noddwr a'u cyfaill mwyn, ffyddlon;
Yn gwisgo'i galarwisg mae'r Eglwys Gadeiriol,
Am Fugail, a Deon, ac Aelod rhinweddol.

Tra ni yn galaru, mae ef yn molianu
Tuhwnt i'r wahanlen, yn nghwmni yr Iesu;
Fe groesodd yr anial, cyraeddodd fro Seion,
Mae'n chwareu y delyn, mae'n gwisgo y goron;
Sych ymaith dy ddagrau, nac wyla, O Eglwys,
Cyraeddodd ein DEON hardd "*ddinas paradwys.*"

O Dduw, bydd drugarog o'i anwyl wehelyth,
Arosed ei enw yn Nghymru'n dragyfyth!

PLORATOR,

*Sef Robyn Wyn, Bangor.*

# Marwnad

*Er coffadwriaeth am y diweddar Dra Pharch. Ddeon Cotton, Bangor, yr hwn a fu farw Mehefin 4ydd*, 1862.

---

HEN Gaerlleon! er nad ydoedd
  COTTON o freninol âch,
Uchel urddas roddodd arnat,
  E' fu'n chwareu'n blentyn bach
Rhwng dy furiau adfeiliedig,
  Ychwanegodd at dy fri,
Llawer garant sain dy enw
  Am it' fagu'n DEON ni.

Gyda chleddyf mawr yr Ysbryd
  Traethodd it' am Iesu mâd,
Gyda chleddyf dynol dysgodd
  Lu i ymladd tros eu gwlad:
Ond pan oedd blodeuyn bywyd
  Ar ymagor, collaist ef;
Mwy yw'n colled ni yr awrhon,
  Er bod COTTON yn y nef.

Colli un a garai'n henwlad
  Ddarfu in' pan hunodd ef,
Noddwr iaith a meibion Gwalia
  Sydd yr awrhon yn y nef;
Wyla'r cerddor am ei fyned,
  Er ei fyned idd yr ŵyl,
Lle mae'n canu'n fwy ardderchog,
  Yn ngwresawgrwydd nefawl hwyl.

Yn mhlith rhengau gwir wladgarwyr
  A dyngarwyr nid yw'n awr;
Ysgolaig rhagorol gwympodd
  Pan y torwyd ef i lawr:
Un oedd ef a berffaith lanwodd
  Yn ei oes yr enw *dyn*,
A grynhödd ei holl rinweddau
  Idd ei enaid mawr ei hun.

Hael wasgarai'i wênau tirion
  Nes y ffoai ofn y gwan,
Ac ymdrechai'n wastad guddio
  Ei uchafiaeth yn mhob man:

Nid oddiar esgynlawr swyddawl
   Yr edrychai ef ar ddyn,
Na, ystyriai ei gyd-ddynion
   Fel yn frodyr iddo'i hun.

Angel pur gwarcheidwol addysg
   Sydd â thristwch ar ei rudd,
Ac ar feddrod COTTON dduwiol
   Hir yr wyla ef yn brudd,
A dysgyblion addysg wylant
   Foliant iddo am ei waith,
Teimlad llawer un nis gellir
   Ei arwisgo'n iawn mewn iaith.

Morwyr, ar wyllt donau'r eigion,
   Ar serenog noswaith oer,
A ddarllenant eu hoff Feiblau
   Yn ngoleuni càn y lloer,
Geirwon ddwylaw sycha'r dagrau
   Am eu ffrynd, nad ydyw mwy,
Ond dych'mygant fry ei weled
   Yn hoff wenu arnynt hwy!

Ac yn anedd clyd y gweithiwr,
   Llawer anwyl fam a thad
Ddysgant wersi COTTON dduwiol
   Idd eu hastud blantos mâd:
Pan fo'n pydru y rhieni,
   Plant eu plant a'u dysg un wedd;
Cyn eu collir, llawer blwyddyn
   Lithra'n ddystaw idd ei bedd.

O ddyngarol Gristionogion,
   Ni chewch weled mwy ei bryd
Yn dysgleiriaw pan yn dadleu
   Am "Feibl i bawb o bobl y byd:"
Pwy deilynga'r gadair lanwyd
   Am flynyddau ganddo ef
Sydd yn awr ar gadair euraidd,
   Yn telynu yn y nef?

Cynllun o weinidog ffyddlawn
   Ydoedd, tra bu yma'n byw
Anwyl Briod, Iesu'i Brynwr,
   Garai'n nesaf at ei Dduw:
Llamai'i galon pan y llwyddai,
   Ar ei rhan dyrchafai'i lef,
Yn ei bryder tros yr Eglwys
   Rhyw ail Eli ydoedd ef.

Serch ei galon lynai wrthi,
  Ac ystyriai'n werthfawr fraint
Cael hyrwyddo cynydd Eglwys,
  "Hâd yr hon yw gwaed y saint,
Eglwys gredai a oroesai
  Chwyldroadau'r llawr i gyd,
Ac a safai'n gadarn golofn
  Uwch dinystr erch holl bethau'r byd.

Hen Eglwysi fu yn dyoddef
  Oesol wyntoedd blin y nen,
A thrwy nenau'r rhai y ffrydiai
  Gwlaw a gwres yr haul uwchben,
A adferwyd ganddo'n llawen
  Oddiwrth eu ffaeleddau gynt,
Fel yn awr y gallant herio
  Holl ruthriadau gwlaw a gwynt.

O! nid ffugiol ydyw'r dagrau
  Wylir am y "DEON DA,"
Er yn pydru yn y beddrod,
  Clod diragrith lluoedd ga:
Ar ei feddfaen llawer deigryn
  Ddisgyn, er nas gwybydd ef,
Oddiwrth lygaid fu yn syllu
  Arno'n traethu am y nef!

Ger yr Eglwys a adseiniodd
  Eiriau'i galon am y groes,
Y gorphwysa ef yn dawel
  Oddiwrth lafur mawr ei oes:
Yn mhriddellau'r glyn yr huna,
  A bendithion ar ei ben,
Ar y llanerch engyl wenant,
  Wrth ymwibio trwy y nen!

Pan na byddo ôl adfeilion
  Byd na lleuad, haul na ser,
Aur orielau nef y nefoedd
  A ddadseinia'i nodau per,—
Nodau synant archangylion,
  A enillant wên yr Oen
Fu yn wrthddrych serch ei galon
  Tra yn teithio byd y poen.

DIADDURN.

*Sef Mr. J. Hughes, Vaynol School, Bangor.*

# Marwnad

*Er coffadwriaeth am y diweddar Dra Pharch. Ddeon Cotton, Bangor, yr hwn a fu farw Mehefin 4ydd,* 1862.

---

PA eiriau cyfaddas i'r gorchwyl
 Er dadgan teimladau mor ddwys,
A dangos archollion mynwesau,
 A'r tristwch ddaeth trosom yn bwys?
Dwfn, ddystaw och'neidiau ymwthiant,
 Gan esgyn mewn sobrwydd yn syn,
Pob dosbarth yn dwys alarnadu,
 Pob mynwes archollwyd yn hyn.

O'r braidd na ogwyddai y bryniau
 Eu penau mewn tristwch i lawr,
A'r sychdir ddyhidlo y dagrau
 Wrth ganfod fath golled mor fawr:
'Rwy'n syllu, gan ddysgwyl cael gweled
 Pinaclau pen temlau y Tad,
A chanddynt dywyllnos bruddwisgoedd
 Pan drengodd gwir noddwr y wlad.

Mae enw DEAN COTTON 'n arogli
 Yn esmwyth a pher yn mhob man,
Colofnau aneirif a dystiant
 Ei fawredd haelionus i'r gwan:
Tylawd a chyfoethog sy'n d'wedyd,
 "Rhy brin yw prif dalent y byd
I wneuthur cyfiawnder â'r testyn,
 Ychwaneg mae'n ofyn o hyd."

Gorchestgamp o'r holl greulonderau,
 O angeu, ddangosaist yn awr,
Drwy daro y cyfaill anwylaf,
 Hawddgaraf, nes cwympodd i lawr:
Teimladau'r tylodion a waedaist,
 Trallodion fel afon a ddaeth,
Dwfr oer ydyw dros gymdeithasau,
 Gofidiau nas gwelwyd eu gwaeth.

Bu'n falm i ddoluriau'r tylodion,
 A meddyg i'r cleifion yn glau;
Y bwthyn dystadlaf fynychai,
 A'i haeledd o hyd yn parhau,

Gan chwilio am le i dosturio,
  A llenwi angenion y gwan,
Heb sathru ar ryddid cymydog,
  Ond anog i bawb wneyd ei ran.

Amddifad a gweddw a'i galwent
  Yn dad ac yn briod wrth raid,
Ac yntau, mewn môr o hyfrydwch,
  Gyfranai o'i galon, heb baid:
Agorodd wych ddorau dysgeidiaeth,
  Gwybodaeth gyfranodd yn rhad;
Ceir miloedd, mewn cynhes adgofion,
  Gusanant ei arlun drwy'r wlad.

P'le bynag y gwelai argoelion
  O dalent yn nhlodion y dref,
Er ised a gwaeled rai gwelw,
  Eu codi i sylw wnai ef,
Gan anog a chymhell yn serchog,
  A choethi'n odidog eu dawn,
A'u gwneuthur yn addurn cymdeithas,
  I ateb y pwrpas yn iawn.

Ei dalent oedd fawr mewn peroriaeth,
  Rhoes uchel gefnogaeth i gân,
A hwyl ei athrylith nefolaidd
  Enynai fynwesau yn dân:
Esiampl fel duwiol, gwir Gristion,
  Un cadarn mewn gweithred a ffydd,
Iach, diddrwg, a chalon ddirodres,
  A mynwes ddiragrith a rhydd.

Ceryddai droseddwyr mewn dwysder,
  A pharod i faddeu i frawd,
Os gwelai wir arwydd edifar,
  Yn gynar rho'i gysur, heb wawd:
Nid anog gan ddysgu â geiriau,
  Rhoi cynghor a cherydd i'r byd,
A gadael heb wneuthur y pethau
  Ddylasid eu gwneuthur i gyd.

Ei lwybrau diragrith a gweddus,
  A'i gamrau gofalus drwy'i oes,
Ei ymdrech diflino, bregethant
  Oraclau effeithiol y groes:
Ei hoff bresenoldeb a'i enw
  Addurnai ein cyrddau mor goeth;
Ei 'madrodd arebol a ffraethlym,
  Mor hynod d'rawiadol a doeth!

Blaenorai mewn pob rhagoriaethau,
Heb geisio gogoniant i'r dyn—
Ni wybu'r llaw aswy y weithred
Gyflawnai'r ddeheulaw ei hun:
Hyfrydwch ei enaid ef beunydd,
Llawenydd ei galon ddigur,
Oedd gweini yn nheml yr Arglwydd,
Mewn sobrwydd, yn onest a phur.

A gwledd o'r danteithion melusaf
Oedd gwneuthur ewyllys ei Dduw;
Sant ydoedd yr hybarch DDEAN COTTON,
Wrth gyfraith y nefoedd yn fyw:
Hardd golofn yn nheml yr Arglwydd,
Perl dysglaer yn nghoron y nef;
Tra'r eglwys ddaearol yn wylo,
Angylion sy'n llawen eu llef.

Mor anhawdd yw gwneuthur ei ddarlun
A geiriau ffaeledig y bardd,
Na gwneuthur un radd o gyfiawnder
A mawredd mor ddysglaer a hardd!
A phwy ond y Nefoedd wybodol
All ddadgan y mawredd i gyd?
A phwy ond y Nefoedd all dalu
Mewn môr o hyfrydwch o hyd.

Masnachodd y DEON âg angeu,
Daeth elw tragwyddol i'w ran,
Hardd osgordd angylaidd ymffurfiodd
I'w ddwyn yn etifedd i'r lan:
Cawn ninau â deigryn sefydlog,
A mynwes hiraethlon a dwys,
Fyn'd at ei feddadail i wylo,
A'i gofio, gan roi arni'n pwys.

Ha! 'r fam ddaearol, crechwenaist
Mewn ymffrost a balchder o'th fodd,
Am gael yn dy fynwes i orwedd
Fath lestr trugaredd yn rhodd!
Ond rhaid fydd i tithau ei golli,
Gwna godi o'th fynwes ryw ddydd
Mewn rhwysg a gwychfawredd rhyfeddol,
Corff nefol, anfarwol a fydd!!

DEIGRYN,

*Neu R. D. Roberts, Artist.*

J. MENDUS JONES, ARGRAFFYDD A LLYFR-RWYMYDD, BANGOR.

# Myfyrdod y bugail

Un prydnawnddydd teg
o haf, cymerais fy nhro
ben y mynydd uchel
ac nid gydag ychydig
o drafferth, ond mor fuan
ag y cyrhaeddais ei gopa
canfyddais fy mod wedi
cael digon o dal am
ddringo. Y peth cyntaf
a dynodd fy sylw yno
ydoedd y mynyddoedd
mawrion [illegible] oeddynt yn
[illegible] amgau am danaf